

Gwenynen gorniog

(*Eucera longicornis*)



Gwennynen gorniog fenyw © Steven Falk



Gwennynen gorniog wryw © Steven Falk

Y Wenynen gorniog (*Eucera longicornis*) yw un o wenyn unig mwyaf y DU. Mae'r gwrywod yn hynod iawn oherwydd eu hantennau hirion. Mae'r Wenynen gorniog angen ardaloedd eang o gynefin heb ei wella sy'n llawn codlysiau. Mae wedi ei rhestru dan Adran 7 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 fel Rhywogaeth Bwysig iawn yng Nghymru. Yn y gorffennol roedd yn niferus ac yn gyffredin yn lleol yn ne Prydain, mae wedi dirywio'n sylweddol a bellach caiff ei hystyried yn un o'r gwenyn sydd wedi dirywio fwyaf ym Mhrydain. Mae hefyd yn gynhaliwr i'r Wenynen grwydrol chwe rhesog (*Nomada sexfasciata*) prin iawn.


Cylch bywyd

Daw'r oedolion i'r golwg ganol mis Mai gan borthi tan ddechrau mis Gorffennaf, gyda'r benywod yn casglu paill o godlysiau fel meillion, Plucen Felen (*Anthyllis vulneraria*), Ffacbys Vicia, Ytbysen y ddôl (*Lathyrus pratensis*) a'r ytbysen fythol. Mae hefyd yn ymweld ag ystod eang o flodau i gasglu neithdar. Mae'r gwrywod yn arbennig o hoff o wefl-lysiau fel yr Eidal (*Glechoma hederacea*) a Glesyn y coed (*Ajuga reptans*). Bydd y fenyw yn palu tyllau mewn priddoedd ysgafn moel neu sydd â fawr ddim llystyfiant, gan ddewis llethrau neu wynebau creigiau fertigol sy'n wynebu'r de. Gan ei bod yn wenyn unig, bydd pob benyw yn palu ei nyth ei hun, er y bydd gwenyn corniog yn nythu mewn cytrefi.

Map dosbarthiad

Arferai'r Wenynen gorniog fod yn niferus ar draws de Prydain, i mewn i'r tir ac ar hyd yr arfordir. Bellach, mae wedi goroesi ar ddim ond ychydig ddwsinau o safleoedd yn genedlaethol, gan gynnwys ardaloedd arfordirol de a gorllewin Cymru, ac mae cytrefi mewndirol bellach yn gymharol brin.

Y Wenynen gorniog (*Eucera longicornis*)



(Mae'r sgwariau coch yn dangos dosbarthiad rhwng 1990 a 2017; y sgwariau oren rhwng 1950 a 1989; sgwariau gwyn rhwng 1800 a 1949. Mae'r dyddiadau diweddaraf (uchaf) yn gorchuddio'r dyddiadau cynharach (rhaf is). Casglwyd y wybodaeth a ddefnyddiwyd yma trwy Atlas NBN a Chanolfannau Cofnodion Amgylcheddol Lleol Cymru o'r ffynonellau canlynol: Cymdeithas Cofnodi Gwenyn, Gwenyn Meirch a Morgrug (BWARS), Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC), Canolfan Cofnodion Bioamrywiaeth De Ddwyrain Cymru (SEWBRc), a Chanolfan Gwybodaeth Bioamrywiaeth Gorllewin Cymru (WWBIC). Lawrlwythwyd o Atlas NBN ar <http://nbnatlas.org>. Cyrchwyd 01 Mawrth 2018.)

Cynefin

Mae'n defnyddio amrywiol gynefinoedd, yn cynnwys clogwyni a llethrau creigiau meddal arfordirol (e.e. Clogwyni Horton a Bae Rhosili, Gŵyr), glaswelltiroedd arfordirol (e.e. Maes Tanio Castellmartin, Sir Benfro), gweirgloddiau (e.e. Dôl Cyncoed, Rhaglan, Sir Fynwy), gwastatiroedd pori arfordirol (e.e. Gwastadeddau Gwent), morfeydd heli (e.e. Cors Cydweli a Banc-y-Lord, Sir Gaerfyrddin), torlannau (e.e. Afon Mynwy, Trefynwy, Sir Fynwy), ffeniau (e.e. GNG Cors Crymlyn, Abertawe), rhostir isel (e.e. Bedd-y-cawr, Llansawel, Castell-nedd Port Talbot) ac ymylon ffyrdd (e.e. Meisgyn, Rhondda Cynon Taf). Fe'i gwelir hefyd ar lwybrau meirch agored mewn coetiroedd collddail ac mewn lleoliadau mwy amaethyddol ble bydd, mae'n debyg, yn nythu mewn torlannau.

Caiff safleoedd hysbys eu nodweddu gan gyfuniad o gynefinoedd nythu addas yn ogystal â thoreth o godlysiau allweddol fel ytbysen y ddôl, plucen felen, ytbysen fythol, meillion a physen-y-ceirw.



Enghraifft o gynefin Gwynedd gorniog ym Mae Flimston, Castellmartin, Sir Benfro © Steven Falk.

Achosion dirywiad

Mae'r Wenylen gorniog angen ardaloedd eang o gynefin blodeuog. Mae wedi ei effeithio'n wael gan golli glaswelltir sych heb ei wella yn ystod yr 20fed ganrif, ac mae'n cael ei effeithio'n sylweddol gan orbori a rheolaeth wael o laswelltir. Mae datblygiad arfordirol, colli cynefinoedd pennau clogwyni, a sefydlogi clogwyni creigiau meddal wedi cyfrannu hefyd at ei dirywiad.

Rheoli cynefin

- **Gallai creu ardaloedd blodau gwyllt llawn codlysiau** ddarparu cynefinoedd porthi newydd mewn cwpwl o flynyddoedd. Mwyafwch y doreth o godlysiau blodeuol fel Ytbysen y ddôl, Plucen felen, meillion a physen-y-ceirw, rhwng mis Mai a dechrau Gorffennaf, dros nifer o gaeau ar ffermydd os oes modd.
- **Dylech osgoi torri gwair ac unrhyw dyfiant arall** (e.e. ar forgloddiau) tan o leiaf 15fed Gorffennaf, a dylid gadael ardaloedd tir pori heb eu pori rhwng 15fed Ebrill a 15fed Gorffennaf.
- Mewn glaswelltir sy'n doreithiog o rywogaethau, **dylech osgoi defnyddio gwrteithiau** a chwynladdwyr a chlirio unrhyw dorion wedi ichi dorri.
- Dylai safleoedd nythu ar **dir moel neu ardaloedd â fawr ddim llystyfiant gael eu cadw'n glir** o llystyfiant tresmasol fel gweiriau bras, mieri neu brysgwydd.
- Ceisiwch annog **brithwaith cynefin eang** sy'n darparu porthiant digonol a chynefin nythu'n agos i'w gilydd.
- **Gallai cynllunio strategol** cyfoethogi neu greu cynefin, ar raddfa tirwedd, fod yn allweddol ar gyfer darparu cysylltiau cynefin a cherrig sarn rhwng safleoedd addas.

Mwy o wybodaeth

Gellir ymweld â'r daflen hon ar y we ar www.buglife.org.uk

Mae'r wenylen hon wedi ei chynnwys yn adroddiad Gwenyn dan Fygythiad Cymru, Buglife Cymru, y gellir ei lawrlwytho o www.buglife.org.uk/adroddiad-gwenyn-dan-fygythiad-cymru

Cymdeithas Cofnodi Gwenyn, Gwenyn Meirch a Morgrug www.bwars.com. Cyfrifon rhywogaethau ar gyfer *Eucera longicornis* a *Nomada sexfasciata*.

Falk, S. J. (1991) A review of the scarce and threatened bees, wasps and ants of Great Britain. Research and Survey in Nature Conservation No. 35. Peterborough: Cyngor Gwarchod Natur.

Flickr: Steven Falk <https://www.flickr.com/photos/63075200@N07/sets/72157633087865547/>. Cyfrif rhywogaethau ar gyfer *Eucera longicornis*.

Stevens, D. P., Smith, S. L. N., Blackstock, T. H., Bosanquet, S. D. S and Stevens, J. P. (2010) Grasslands of Wales: A Survey of Lowland Species-rich Grasslands, 1987-2004. Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru.